



CYNGOR ARIANNOL 2019/20



Ar gael mewn ffurfiau eraill ar gais

Cynnwys

1. Rhagarweiniad	Tud 1
2. Ffioedd Dysgu	Tud 2
3. Cyllido eich Costau Byw	Tud 3
3.1 Myfyrwyr o Gymru	Tud 3
3.2 Myfyrwyr o Loegr	Tud 4
4. Gwneud Cais a Derbyn eich Cyllid Myfyrwyr	Tud 5
4.1 Gwneud Cais	Tud 5
4.2 Derbyn eich Arian	Tud 5
5. Ad-dalu Benthyciadau	Tud 5
6. Astudiaethau Blaenorol ar Lefel Addysg Uwch	Tud 6
7. Bwrsariaethau Prifysgol Bangor	Tud 6
8. Myfyrwyr gyda phlant neu oedolion sy'n ddibynnol yn ariannol arnoch	Tud 8
9. Lwfans i Fyfyrwyr Anabl	Tud 9
10. Y Gronfa Caledi	Tud 10
11. Grantiau Argyfwng	Tud 11

Cyngor Cyffredinol

12. Banciau a Chredyd	Tud 11
13. Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol	Tud 12
14. Cyflogaeth	Tud 13
15. Gwario eich Arian	Tud 14
16. Syniadau da i wneud i'ch arian bara	Tud 15
17. Taflen Gyllidebu	Tud 17

Manylion Cyswilt yr Uned Cymorth Ariannol

Rhif Ffôn: 01248 38 3566 / 3637
E-bost: cymorthariannol@bangor.ac.uk
Cyfeiriad: Uned Cymorth Ariannol, Gwasanaethau Myfyrwyr,
Llawr 1af, Neuadd Rathbone, Ffordd y Coleg,
Bangor, LL57 2DF

Cyngor ariannol i fyfyrwyr sy'n dechrau mewn addysg uwch yn 2019/2020

1. Rhagarweiniad

Dylai eich amser yn y brifysgol fod yn bleserus ac yn werth chweil, ac ym Mhrifysgol Bangor ein nod yw rhoi gwybodaeth a chefnogaeth i chi a fydd yn eich galluogi i fanteisio i'r eithaf ar eich profiad yn y brifysgol. Mae'n arbennig o bwysig nad yw pryderon ariannol diangen yn amharu ar eich amser yma, felly rydym yn argymhell eich bod yn llunio cyllideb fras cyn dechrau ar eich astudiaethau. Os ydych newydd adael yr ysgol, dylech wneud hyn gyda'ch rhieni neu warcheidwaid am fod angen iddyn nhw hefyd ddeall faint y bydd angen ei wario.

Tra byddwch yn y brifysgol bydd gennych ddwy brif gost:

Ffioedd dysgu; a Chostau byw

Gall fod cymorth ar gael gyda'r ddwy gost. Mae'r gefnogaeth sydd ar gael yn dibynnu ar o ba ran o'r Deyrnas Unedig y dewch. Yn gyffredinol, mae'r cynllun cyllid myfyrwyr i israddedigion llawn amser yn cynnwys ffioedd dysgu wedi'u gohirio a chefnogaeth ariannol i'ch helpu gyda chostau byw o ddydd i ddydd.

Yn anffodus, i rai myfyrwyr, mae cyfanswm y cyllid myfyrwyr y byddant yn ei gael yn annhebygol o fod yn ddigon i dalu'r holl gostau, ac efallai y bydd angen rhagor o gymorth ar fyfyrwyr gan rieni/cymar neu ddefnyddio cynilion neu fynd ar ofyn rheolwr banc ac, efallai, drwy weithio mewn swydd ran amser yn ystod y cwrs ac/neu yn ystod y gwyliau.

Dylai myfyrwyr o wledydd yr Undeb Ewropeaidd ffonio (+44) (0) 141 243 3570 i gael gwybod a ydynt yn gymwys i gael cymorth gyda ffioedd dysgu tra byddant yn y brifysgol.

2. Ffioedd Dysgu 2019/20

Y ffioedd dysgu i fyfyrwyr israddedig llawn amser o'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yw £9,000.

Nid oes raid i fyfyrwyr cymwys o'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd dalu ffioedd cyn astudio na thra byddant yn astudio. Yn lle hynny gall myfyrwyr wneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu o hyd at £9,000 i dalu'r costau. Nid oes prawf modd ar y benthyciad hwn. Bydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn talu'r ffioedd yn uniongyrchol i'r brifysgol ar ran y myfyrwyr.

Mae Benthyciadau Ffioedd Dysgu ar gael i fyfyrwyr llawn amser sy'n dilyn eu cwrs israddedig **cyntaf** ac mae'r benthyciadau ar gael ni waeth beth yw incwm y cartref. Dylai myfyrwyr sydd wedi astudio o'r blaen ar lefel addysg uwch gysylltu â'u corff cyllido myfyrwyr i holi a ydynt yn gymwys.

Bydd myfyrwyr yn ad-dalu'r Benthyciad Ffioedd Myfyrwyr ar ôl gadael y Brifysgol pan fyddant yn ennill dros £25,000 y flwyddyn.

I gael rhagor o wybodaeth am sut y gallwch dalu eich ffioedd dysgu os ydych yn dewis peidio â gwneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu ac unrhyw ffioedd eraill y mae'r brifysgol yn eu codi, megis llety, cysylltwch â'r Swyddfa Gyllid:

Gwefan: www.bangor.ac.uk/finance/index.php.cy

Ffôn: 01248 38 2049

3. Cyllido eich Costau Byw

Bydd y gefnogaeth ariannol sydd ar gael i'ch helpu gyda'ch costau byw o ddydd i ddydd, pethau megis rhent/ffioedd neuaddau, llyfrau, bwyd, costau teithio ac ati yn dibynnu ar o ba ran o'r Deyrnas Unedig y dewch ac yn lle byddwch yn byw fel myfyriwr.

Defnyddir incwm trethadwy eich cartref i bennu faint o arian y byddwch yn ei dderbyn - fel rheol incwm eich rhiant/rhieni neu eich cymar ym mlwyddyn ariannol 2017/18.

Cewch fwy o wybodaeth am ariannu eich astudiaethau ar y gwefannau canlynol:

Prifysgol Bangor: www.bangor.ac.uk/student-services/moneyadvice/index.php.cy

Myfyrwyr o Gymru: www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk

Myfyrwyr o Loegr: www.gov.uk/student-finance

Myfyrwyr o'r Alban: www.saas.gov.uk

Myfyrwyr o Ogledd Iwerddon: www.studentfinancenl.co.uk

3.1 Gall Myfyrwyr sy'n dod o Gymru wneud cais am Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, nad oes rhaid ei ad-dalu, ac am Fenthyciad Cynhaliaeth, y mae'n rhaid ei ad-dalu.

2019/20 Tabl Hawliau – Myfyrwyr o Gymru

Incwm Cartref	Byw gyda rhieni		Byw oddi cartref	
	Grant	Benthyciad	Grant	Benthyciad
£18,370 neu lai	£6,885	£955	£8,100	£1,125
£25,000	£5,930	£1,910	£6,947	£2,278
£35,000	£4,488	£3,352	£5,208	£4,017
£50,000	£2,326	£5,514	£2,600	£6,625
£59,200 neu fwy	£1,000	£6,840	£1,000	£8,225
Cyfanswm	£7,840		£9,225	

3.2 Gall **Myfyrwyr o Loegr** wneud cais am fenthyciad cynhaliath er mwyn helpu i dalu am eu costau byw o ddydd i ddydd.

2019/20 Tabl Hawliau – Myfyrwyr o Loegr

Incwm Cartref	Benthyciad Cynhaliath – byw oddi cartref	Cyfraniad Asesedig Teuluoedd
Hyd at £25,000	£8,944	£0.00
£35,000	£7,661	£0.00
£42,875	£6,650	£0.00
£55,000	£5,093	£1,567
£62,187	£4,168	£2,482

4. Gwneud Cais a Derbyn eich Cyllid Myfyrwyr

4.1 Gwneud Cais

Os nad ydych eisoed wedi gwneud cais am gyllid myfyrwyr ar gyfer 2019/20 dylech wneud hynny fel mater o frys.

Gallwch wneud cais ar-lein neu gall myfyrwyr o Gymru lawrlwytho ffurflen gais yn www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk

Mae manylion y gwefannau perthnasol i fyfyrwyr o weddill y Deyrnas Unedig ac o'r Undeb Ewropeaidd wedi eu rhestru ar dudalen 3.

Byddwch yn derbyn llythyr yn cadarnhau eich cyllid myfyrwyr tua 4-6 wythnos ar ôl cyflwyno eich ffurflen gais am gyllid. Os nad ydych wedi derbyn cadarnhad rydym yn argymhell eich bod yn edrych ar y porth cyllid myfyrwyr ac/neu yn ffonio Cyllid Myfyrwyr Cymru i gael gwybod beth yw statws eich cais am gyllid.

4.2 Derbyn eich Arian

Caiff cyllid myfyrwyr ei dalu mewn 3 rhandaliad a bydd myfyrwyr yn derbyn eu rhandaliad cyntaf 3-5 diwrnod gwaith ar ôl cofrestru yn y brifysgol.

Rhandaliad 1^{af} 3-5 diwrnod gwaith ar ôl cofrestru yn y brifysgol

2^{il} rhandaliad ddechrau mis Ionawr 2020

3^{ydd} rhandaliad ar ôl y Pasg, 2020

5. Ad-dalu Benthyciadau

Byddwch yn ad-dalu unrhyw fenthyciadau ffioedd dysgu a chynhaliath y byddwch yn eu cymryd fel myfyriwr israddedig ar ôl i chi adael y brifysgol ar raddfa ad-dalu sy'n ddibynnol ar eich incwm. Mae'r gyfradd llog yn gysylltiedig â chwyddiant (Mynegai Prisiau Adwerthu).

Cewch ragor o wybodaeth am y broses ad-dalu ar y wefan ganlynol: www.studentloanrepayment.co.uk

6. Astudiaethau Blaenorol ar Lefel Addysg Uwch

Gofynnwch am gyngor gan eich corff cyllido myfyrwyr neu gan y brifysgol os ydych wedi astudio ar lefel addysg uwch o'r blaen, yn enwedig os oes gennych eisoes radd anrhydedd, oherwydd efallai **na fyddwch** yn gymwys i dderbyn cyllid myfyrwyr.

Cysylltwch â Chyllid Myfyrwyr Cymru neu â'r Uned Cymorth Ariannol yma ym Mangor i gael cyngor a gwybodaeth bellach cyn dechrau ar eich cwrs.

7. Bwrsariaethau Prifysgol Bangor

Fel y byddech yn ei ddisgwyl gan brifysgol sy'n rhoi cryn bwyslais ar gefnogi myfyrwyr, rydyn ni'n awyddus i gynnig cymorth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr.

Mae bwrsariaethau'r brifysgol ar gael ar ben unrhyw grantiau neu fenthyciadau cynhaliaeth. Asesir eich hawl i fwrsariaeth yma yn y brifysgol a chaiff ei seilio ar gais y myfyriwr am gyllid.

Mae hyn yn golygu na fydd raid i chi lenwi unrhyw ffurflenni cais ychwanegol.

Bwriad **Bwrsariaeth Bangor** yw darparu cymorth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr o'r Deyrnas Unedig (ac eithrio myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru) ac o'r Undeb Ewropeaidd. Mae eich hawl i dderbyn Bwrsariaeth Bangor yn dibynnu ar incwm trethadwy eich cartref:

Incwm cartref o lai na £25,000 = uchafswm o £1000

Incwm cartref rhwng £25,000 a £40,000 = £500.

Mae myfyrwyr o'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd sy'n dewis astudio 40 credyd neu fwy trwy gyfrwng y Gymraeg yn derbyn **Bwrsariaeth Cyfrwng Cymraeg** gwerth £250 bob blwyddyn academaidd.

Caiff Bwrsariaethau Bangor a Bwrsariaethau Cyfrwng Cymraeg eu dyfarnu o 1 Mawrth bob blwyddyn.

Mae **Bwrsariaeth Dechrau Mewn Addysg Uwch** o £1,000 ar gael i rai sy'n dod i'r brifysgol o ofal eu Hawdurdod Lleol. Caiff y bwrsariaeth hon ei thalu i fyfyrwyr cymwys yn eu blwyddyn academaidd gyntaf

Myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eu teuluoedd -

Mae dechrau yn y brifysgol yn gyfnod anodd ac mae hyd yn oed yn fwy anodd heb gefnogaeth teulu. Os ydych yn berson ifanc sydd wedi ymddieithrio oddi wrth eich teulu (o dan 25 oed ac ar ddechrau eich cwrs) ac yn astudio heb gefnogaeth na chymeradwyaeth eich teulu, gallwch fod yn gymwys i gael bwrsariaeth o £1000 er mwyn helpu i leddfu unrhyw broblemau ariannol y gallech eu hwynebu.

I wneud cais, cysylltwch â Wendy sy'n ymgynghorydd yn Uned Cymorth Ariannol y brifysgol cyn gynted ag y byddwch wedi cwblhau'r broses gofrestru ym mis Medi.

Bwrsariaeth Gofalwyr - Mae'r brifysgol yn ymwybodol y gall fod goblygiadau ariannol i ofalu ac y bydd myfyrwyr yn wynebu costau teithio uwch, neu'n sylweddoli na allant weithio'n rhan amser i'r un graddau i ychwanegu at eu cyllid myfyrwyr. I helpu i ysgafnhau ychydig ar y pryderon ariannol hyn mae Prifysgol Bangor yn cynnig bwrsariaeth flynyddol i fyfyrwyr sy'n ofalwyr di-dâl o hyd at £1,000 o Gronfa Galedi'r brifysgol.

Bwrsariaethau i Adleoli Teuluoedd - hyd at £1,000. Gall adleoli i astudio gyda theulu fod yn ddrutach a gall myfyrwyr wynebu costau uwch wrth rentu a thalu am ofal plant ac ati.

Mae'r fwrariaeth hon ar gael i fyfyrwyr y mae cyflog trethadwy'r cartref yn llai na £25,000 ac mae ar gael yn y flwyddyn academaidd gyntaf yn unig.

Bwrsariaethau i Fyfyrwyr Digartref - hyd at £500. Os nad oedd gennych gartref sefydlog cyn dechrau ar eich astudiaethau ym Mhrifysgol Bangor, gallwch wneud cais am y fwrariaeth hon i'ch helpu gyda chostau cychwynnol prifysgol. Mae'r fwrariaeth hon ar gael yn y flwyddyn academaidd gyntaf yn unig.

Bwrsariaethau Teithiau Maes - Trefnir teithiau maes gan Ysgolion Academaidd i gyfoethogi profiadau Ysgolion dysgu israddedigion. Pwrpas y bwrsariaethau hyn yw annog myfyrwyr i gymryd rhan yn y gweithgareddau hynny a gwella eu profiad, yn arbennig felly yn achos myfyrwyr a allai, fel arall, gael eu heithrio oherwydd eu sefyllfa ariannol bersonol.

I wneud cais am un o'r bwrsariaethau uchod cysylltwch â'r Uned Cymorth Ariannol neu ewch i'w gwefan i gael rhagor o wybodaeth:

www.bangor.ac.uk/student-services/money-advice/index.php.cy

8. Myfyrwyr gyda phlant neu oedolion sy'n ddibynnol yn ariannol arnoch

Benthyciad / Grant Efen Cymorth Arbennig

Mae cymorth ariannol ychwanegol ar gael i fyfyrwyr a allai fod yn gymwys i dderbyn budd-daliadau ar sail prawf modd, megis Cymhorthdal Incwm, Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol cyn dechrau ar eu hastudiaethau academaidd. Fel arfer mae hyn yn golygu rhieni sengl, aelodau cwpl sydd eu dau yn fyfyrwyr llawn amser a chanddynt blant dibynnol a rhai myfyrwyr sydd ag anabledd. Pennir uchafswm Benthyciad neu Grant Efen Cymorth Arbennig gan eich corff cyllido myfyrwyr.

Bydd swm y Benthyciad neu Grant Efen Cymorth Arbennig y byddwch yn ei dderbyn yn cael ei ddiystyru'n llwyr at ddibenion budd-daliadau ar sail prawf modd.

Sylwch y gallai derbyn y cyllid myfyrwyr anghywir effeithio'n sylweddol ar eich hawl i dderbyn budd-daliadau ar sail prawf modd

I gael rhagor o wybodaeth ffoniwch neu anfonwch e-bost at yr Uned Cymorth Ariannol neu ewch i wefan eich sefydliad cyllido myfyrwyr - mae'r manylion wedi eu rhestru ar dudalen 3.

Cymorth Ariannol Ychwanegol

Mae amrywiaeth o gymorth ychwanegol ar gael os oes gennych ddibynyddion, gan gynnwys **Grant Gofal Plant**, a all dalu hyd at 85% o gostau gofal plant cofrestredig/cymeradwy. Ceir **Lwfans Dysgu i Rieni** i helpu gyda chostau'r cwrs i fyfyrwyr sydd â phlant dibynnol, a **Grant Oedolion Dibynnol** i fyfyrwyr gydag oedolion dibynnol.

Mae'r grantiau a'r lwfansau hyn i gyd yn cael eu rhoi **ar sail prawf modd** a bydd y swm a gewch yn dibynnu ar incwm trethadwy eich cartref. Bydd eich corff cyllido'n pennu faint o arian y mae gennych hawl i'w gael ar sail y wybodaeth a roddwch yn eich cais am gyllid myfyrwyr.

I wneud cais am Grant Gofal Plant rhaid i chi lenwi ffurflen ychwanegol - CCG1 - sydd ar gael i'w lawrlwytho o wefan eich corff cyllido.

Gall myfyrwyr sydd â phlant dibynnol hefyd wneud cais am Gredyd Treth Plant neu Gredyd Cynhwysol. Efallai y bydd gan fyfyrwyr sy'n derbyn uchafswm Credyd Treth Plant neu Gredyd Cynhwysol (a dim Credyd Treth Gwaith) hawl i brydau ysgol am ddim i'w plant. Gwiriwch i weld a ydych yn parhau i fod yn gymwys ymhell cyn dechrau ar eich cwrs.

9. Lwfans i Fyfirwyr Anabl

Os oes gennych anabledd, anhawster dysgu penodol neu broblemau iechyd hirdymor efallai eich bod yn gymwys i dderbyn

Y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl. Bwriad y Lwfans yw cynorthwyo â'r costau ychwanegol y gallech eu hwynebu oherwydd eich anabledd neu eich anhawster dysgu gan gynnwys: lwfans offer arbenigol; lwfans cynorthwywyr anfeddygol; lwfans cyffredinol i fyfyrwyr anabl a chymorth tuag at gostau teithio ychwanegol y mae'n rhaid i chi eu talu wrth fynd i'r brifysgol oherwydd eich anabledd.

I wneud cais am y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl mae'n rhaid i chi lenwi ffurflen DSA1 sydd ar gael gan Gyllid Myfyrrwyr Cymru.

Gall ein tîm Gwasanaethau Anabledd eich cynorthwyo i wneud cais am y Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl. Yn ddelfrydol, dylech gysylltu â nhw wrth wneud cais, ond mae croeso hefyd i chi gysylltu â nhw unrhyw bryd yn ystod eich cwrs.

Cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau Anabledd i gael rhagor o gyngor a gwybodaeth:

Ffôn: 01248 38 2032

E-bost: gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

Gwefan: www.bangor.ac.uk/student-services/disability/index.php.cy


10. Y Gronfa Galedi

Mae gan Brifysgol Bangor gronfa i roi cymorth ariannol dewisol i fyfyrwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol annisgwyl yn ystod eu hastudiaethau. Mae'r gronfa ar gael i holl fyfyrwyr cofrestredig Prifysgol Bangor.

Rydym yn annog pob myfyriwr sy'n cael anawsterau ariannol i gysylltu â'r Uned Cymorth Ariannol i drafod eu sefyllfa ariannol gyda staff profiadol yn gwbl gyfrinachol cyn gynted â'u bod yn sylweddoli eu bod mewn anhawster ariannol.

Mae'r Uned yn agored rhwng 9 a 5 o ddydd Llun i ddydd Gwener ac mae wedi'i lleoli ar Lawr 1af Neuadd Rathbone, Ffordd y Coleg, Bangor.

11. Grantiau Argyfwng



Yr Uned Cymorth Ariannol sy'n gweinyddu Grant Argyfwng Undeb y Myfyrwyr. Mae'r grant yn cynnig cymorth ariannol bach a thymor byr i fyfyrwyr sy'n dioddef caledi ariannol.

Dyfernir y grantiau hyn, nad oes rhaid eu hadalu, i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu prynu bwyd tra bod opsiynau ariannol eraill mwy hir dymor yn cael eu hystyried.

Cysylltwch â'r Uned Cymorth Ariannol i gael rhagor o wybodaeth.

Cyngor Cyffredinol

12. Banciau a Chredyd

Mae holl brif fanciau'r stryd fawr yn cynnig cyfleusterau arbennig i fyfyrwyr, a'r mwyaf gwerthfawr ohonynt yw cyfleuster gorddrafft di-log.

1. Agorwch Gyfrif Myfyriwr gyda changen sy'n rhoi sylw amlwg i fyfyrwyr, a cheisiwch gael y fargen orau trwy ymweld â sawl banc yn gyntaf.
2. **Ewch ati i ymdrin â'ch cyfrifon banc yn gyfrifol bob amser.**
Defnyddiwch gyfleusterau bancio ar-lein ac apiau bancio neu gofynnwch am gyfriflenni misol/nodiadau atgoffa i'ch helpu i gadw llygad ar eich gwariant.
3. Os byddwch angen benthycu arian ychwanegol yna trafodwch gyda'r banc yn gyntaf, gan y bydd benthycu heb awdurdod yn arwain at daliadau cosb a gallai effeithio ar eich statws credyd.

13. Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol

Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr israddedig llawn amser yn anghymwys i hawlio budd-daliadau nawdd cymdeithasol a bennir trwy brawf modd tra byddant yn astudio, gan gynnwys adegau gwyliau.

Mae eithriadau i'r rheol hon yn cynnwys rhieni sengl, rhai myfyrwyr ag anableddau a chyplau sydd eu dau yn fyfyrwyr gyda phlant dibynnol. Os ydych yn gymwys oherwydd eich bod yn perthyn i un o'r categorïau hyn, efallai y gallwch hawlio Cymhorthdal Incwm/Lwfans Ceisio Gwaith, Budd-dal Tai, Budd-dal Treth y Cyngor a Chredyd Cynhwysol, er y gall yr hawliau newid yn ystod y flwyddyn academaidd.

Os ydych yn gymwys i dderbyn budd-daliadau a bennir yn ôl prawf modd, nodwch y bydd yr Asiantaeth Budd-daliadau yn ystyried unrhyw incwm a dderbyniwch gan eich corff cyllido myfyrwyr. Os ydych yn gymwys i gael Benthyciad Cynhaliath, bydd yr Asiantaeth Budd-daliadau'n ystyried yr arian sydd ar gael i chi, p'un a ydych yn ei gymryd ai peidio. Os yw eich cymar yn gymwys i dderbyn budd-daliadau, bydd yr Asiantaeth Fudd-daliadau'n ystyried eich incwm myfyriwr yn yr un modd wrth gyfrifo ei f/budd-daliadau ef/hi.

Os ydych yn hawlio budd-daliadau a bennir yn ôl prawf modd cyn i chi ddechrau eich cwrs, **mae'n rhaid i chi adael i'r Asiantaeth Budd-daliadau a'r Asiantaeth Budd-dal Tai wybod** am y newid yn eich amgylchiadau a datgan eich incwm fel myfyriwr cyn 31 Awst 2019. Gallai methu â gwneud hynny olygu y telir gormod o fudd-daliadau i chi a byddant yn hawlio'r taliadau hyn yn ôl tra byddwch yn y brifysgol.

Nid oes raid i fyfyrwyr llawn amser dalu Treth y Cyngor.

I gael rhagor o wybodaeth am eich hawl i dderbyn budd-dal cysylltwch â'r swyddfa sy'n talu eich budd-daliadau neu â'r Uned Cymorth Ariannol.

14. Cyflogaeth

Yn gynyddol, mae myfyrwyr yn sylweddoli bod arnynt angen gweithio er mwyn ychwanegu at eu hincwm tra maent yn y brifysgol. Mae'n bwysig sicrhau nad yw gwaith rhan amser yn amharu ar eich astudiaethau. Yn gyffredinol ni ddylai myfyrwyr weithio mwy na 10-15 awr yr wythnos.

Mae gan y Brifysgol ei swyddfa gyflogaeth ei hun i fyfyrwyr sef **Bangor Target Connect**. Gwasanaeth rhad ac am ddim i fyfyrwyr a graddedigion yw hwn. Yn ogystal â hysbysebu swyddi gwag, mae'r safle we yn rhoi cyngor ar ddeddfwriaeth cyflogaeth, cyfraddau cyflog, oriau gwaith a argymhellir a dulliau chwilio am swydd.



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Ffôn: 01248 38 2011

E-bost: careers@bangor.ac.uk neu ewch i'r wefan:

www.bangor.ac.uk/careers/students/jobmart.php.cy

Gwasanaeth Sgiliau a Chyflogadwyedd

Gall y gwasanaeth hwn helpu myfyrwyr i ddysgu a datblygu sgiliau a fydd yn bwysig iddynt yn nes ymlaen yn eu bywyd, yn enwedig sgiliau cyflogadwyedd. Gall y gwasanaeth helpu myfyrwyr i ddod o hyd i leoliadau gwaith, interniaethau a chyfleoedd gwirfoddoli ac mae gan y gwasanaeth, interniaethau a chyfleoedd gwirfoddoli ac mae gan y gwasanaeth gysylltiadau â rhwydwaith eang o fusnesau.

Mae'r gwasanaeth yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau trwy gydol y flwyddyn academaidd - gan gynnwys digwyddiadau chwilio am swyddi, paratoi CV a gweithdai sgiliau cyfweliad.

P'un a ydych yn eich blwyddyn gyntaf, hanner ffordd trwy eich cwrs neu ar fin gorffen eich gradd neu'n fyfyrwr ôl-radd, mae'n debyg y bydd y gwasanaeth hwn yn gallu eich helpu mewn rhyw ffordd.

Am ragor o wybodaeth am y Gwasanaeth Sgiliau a Chyflogadwyedd ewch i'r wefan:

<https://www.bangor.ac.uk/skills-and-employability/index.php.cy>

15. Gwario eich Arian

Mae dysgu rheoli eich arian tra byddwch yn y brifysgol yn sgil angenrheidiol a fydd yn fuddiol i chi nawr ac yn y dyfodol. Mae costau prifysgol yn llawer mwy na dim ond ffioedd dysgu a llety. Mae'n rhaid ystyried costau eraill megis bwyd, costau teithio, yswiriant, costau eraill sy'n gysylltiedig â'ch cwrs (llyfrau, offer ac ati), biliau cyfleustodau a gweithgareddau hamdden. Dylech nodi pa gostau a gewch cyn gynted â phosibl er mwyn pennu cyllideb cyn i chi wario arian na fedrwch fforddio ei golli.

Cyn dechrau yn y brifysgol mae'n syniad dechrau cynilo. Gall dechrau mewn prifysgol fod yn gostus, ac yn anffodus, nid yw cyllid myfyrwyr pawb yn cyrraedd pryd y dylai, felly paratowch eich hun.

Defnyddiwch y daflen gyllidebu wag yng nghanol y llyfryn hwn i'ch helpu i lunio cyllideb wythnosol/misol, neu fel arall gallwch ddefnyddio ein hadnoddau cyllidebu rhyngweithiol newydd sydd ar gael ar-lein:

<https://www.bangor.ac.uk/student-services/moneyadvice/budgeting.php.cy>

Er na ellir gorfodi rhieni/cymar i gyfrannu tuag at eich costau byw, mae ei werth ariannol yn hanfodol i'ch cyllideb. Os yw eich rhiant/cymar yn methu neu'n gwrthod talu'r cyfraniad a aseswyd (a gyfrifwyd gan eich corff cyllido myfyrwyr) dylech ystyried o ddifri a fyddwch yn gallu cynnal eich hun yn ariannol yn ystod eich cwrs.

16. Syniadau da i wneud i'ch arian bara

- ✓ Treuliwch amser yn cynllunio eich sefyllfa ariannol cyn i chi gyrraedd y Brifysgol a phennwch gyllideb wythnosol neu fisol i chi eich hun.
- ✓ Agorwch gyfrif banc myfyriwr os nad oes gennych un yn barod
- ✓ Rhestrwch eich gwariant hanfodol - byddwch yn onest ac yn realistig
- ✓ Ewch ati i ddysgu sut i goginio prydau iach - bydd hyn yn arbed arian i chi ac yn eich cadw'n iach
- ✓ Cadwch gofnod o bopeth rydych yn ei wario - mae hyn yn help i nodi patrymau gwario rheolaidd/achlysurol
- ✓ Ewch i'r arfer o wirio balans eich cyfrif banc yn rheolaidd ac yn arbennig cyn mynd allan i siopa neu ar noson allan
- ✓ Cynlluniwch ar gyfer gwariant ychwanegol megis costau dechrau blwyddyn / achlysuron arbennig / pen-blwydd teuluol ac ati.
- ✓ Talwch am gymaint ag y medrwch pan gewch eich Benthyciad Myfyriwr, megis rhent am y semester cyfan, ffioedd dysgu a biliau.
- ✓ Prynwch bethau fel llyfrau yn ail law - defnyddiwch siopau llyfrau a'r rhyngwyd i chwilio am lyfrau y byddwch eu hangen a gwerthwch unrhyw lyfrau diangen.
- ✓ Talwch eich rent a'ch ffioedd dysgu cyn gynted ag y byddwch yn derbyn rhandaliadau eich cyllid myfyrwyr
- ✓ Prynwch yn ail-law - defnyddiwch siopau lleol a safleoedd ar-lein i brynu a gwerthu unrhyw lyfrau, dillad, offer ac ati nad ydych eu hangen.

- ✓ Cofiwch am gardiau gostyngiad i fyfyrwyr—bydd siopau'n cynnig gostyngiad i fyfyrwyr sy'n gwneud cais am gerdyn gostyngiad neu sydd â cherdyn Extra Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr. I gael rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais am y cerdyn hwn ewch i: www.nus.org.uk/en/nus-extra/Applying.



- ✓ Os oes gennych eisoes ddyledion, gwnewch yn siŵr eich bod wedi gwneud trefniadau i dalu costau'r ddyled tra byddwch yn astudio, h.y. rhandaliadau wythnosol/misol. Os na allwch fforddio'r ad-daliad, cysylltwch â'ch credydwr cyn dechrau eich cwrs i drefnu cynllun ad-dalu fforddiadwy.

Yn olaf

Os bydd gennych broblemau ariannol yn ystod eich cwrs, nid ydych ar eich pen eich hun. Gofynnwch am gymorth cyn gynted â phosibl os ydych yn sylweddoli fod gennych broblem. Cofiwch nid yw byth yn rhy hwyr i ofyn am gyngor. Siaradwch â'ch Tiwtor Personol a / neu anfonwch e-bost at yr Uned Cymorth Ariannol yn yr Adran Gwasanaethau Myfyrwyr neu galwch heibio i'n gweld i gael cyngor, gwybodaeth a chymorth ar unrhyw adeg.

Mi wnawn ni ein gorau i'ch helpu, dim ond i chi ofyn.

